O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 12 (Cy. 5)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *5 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *7 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain - Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford") wedi'i fodloni y dylid gwahardd neu cyfyngu ar traffig ar ddarnau penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar bob dydd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ac sy'n dod i ben am 06:00 o'r gloch drannoeth i'r dyddiau hynny;

ystyr "y darnau o'r drafford" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r drafford a bennir yn Atodlenni 1 i 4 Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y gerbytffordd tua'r gorllewin nac ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

**5.** Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw gerbyd esempt, fynd ar hyd y ffordd ymuno â'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw gerbyd esempt, fynd ar hyd y ffordd ymadael â'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Mae rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Cefnffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** drwy hyn yn cael ei atal:

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 6 mewn grym; a

(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 mewn grym.

**10.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o'r Rheoliadau Traffig Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(4)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn penodedig o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4, drwy hyn yn cael eu

hatal yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 8 yn weithredol.

**11.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1982/1163
**(4)** O.S. 1974/502

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twneli Bryn-glas tua'r dwyrain hyd at bwynt 480 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y Twneli a enwyd.

### ATODLEN 2

Hyd cyfan slipffordd ymuno tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

### ATODLEN 3

Hyd cyfan slipffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

### ATODLEN 4

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 550 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twneli Bryn-glas tua'r dwyrain hyd at bwynt 880 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y Twneli a enwyd.

### ATODLEN 5

Dydd Gwener 7 Ionawr 2011
Dydd Sadwrn 8 Ionawr 2011
Dydd Gwener 14 Ionawr 2011
Dydd Sadwrn 15 Ionawr 2011
Dydd Gwener 21 Ionawr 2011
Dydd Sadwrn 22 Ionawr 2011
Dydd Gwener 28 Ionawr 2011
Dydd Sadwrn 29 Ionawr 2011

Dydd Gwener 4 Mawrth 2011
Dydd Sadwrn 5 Mawrth 2011
Dydd Gwener 18 Mawrth 2011
Dydd Sadwrn 19 Mawrth 2011

Dydd Gwener 1 Ebrill 2011
Dydd Sadwrn 2 Ebrill 2011

Dydd Gwener 13 Mai 2011
Dydd Sadwrn 14 Mai 2011

Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2011
Dydd Sadwrn 9 Gorffennaf 2011
Dydd Gwener 15 Gorffennaf 2011
Dydd Sadwrn 16 Gorffennaf 2011

Dydd Gwener 9 Medi 2011
Dydd Sadwrn 10 Medi 2011
Dydd Gwener 16 Medi 2011
Dydd Sadwrn 17 Medi 2011
Dydd Gwener 23 Medi 2011
Dydd Sadwrn 24 Medi 2011
Dydd Gwener 30 Medi 2011

Dydd Sadwrn 1 Hydref 2011
Dydd Gwener 7 Hydref 2011
Dydd Sadwrn 8 Hydref 2011
Dydd Gwener 14 Hydref 2011
Dydd Sadwrn 15 Hydref 2011

Dydd Gwener 4 Tachwedd 2011
Dydd Sadwrn 5 Tachwedd 2011
Dydd Gwener 11 Tachwedd 2011
Dydd Sadwrn 12 Tachwedd 2011
Dydd Gwener 18 Tachwedd 2011
Dydd Sadwrn 19 Tachwedd 2011
Dydd Gwener 25 Tachwedd 2011
Dydd Sadwrn 26 Tachwedd 2011

Dydd Gwener 2 Rhagfyr 2011
Dydd Sadwrn 3 Rhagfyr 2011
Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2011
Dydd Sadwrn 10 Rhagfyr 2011
Dydd Gwener 16 Rhagfyr 2011
Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr 2011